Pecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau | Dyddiad: | Dydd Mercher, 27 Mawrth 2013 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD MAWRTH, 2 EBRILL 2013** am **3.30 pm** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O FUDDIANNAU**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

## 3 MATERION BRYS YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 SYMUD O GYNLLUNIAU TREFOL I GYNLLUNIAU ARDAL

I ystyried adroddiad (copi'n amgaeedig) gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol i geisio barn gan Graffu Cymunedau ar y broses i ehangu Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach gan ymgorffori cymunedau llai a mwy gwledig ledled Sir Ddinbych.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Win Mullen-James
Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Ebrill 2013** |
| **Aelodau Arweiniol:** | **Arweinydd y Cabinet dros Ddatblygu Economaidd ac Arweinydd y Cabinet dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid (gan gynnwys Datblygu Gwledig)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Teitl:** | **Cynlluniau Symud o'r Dref i'r Ardal** |

---

**1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?**

Yn ystod 2011/12, datblygodd a chytuno Cyngor Sir Ddinbych Gynlluniau Tref ar gyfer saith prif dref y Sir, ac eithrio'r Rhyl. Cynhaliwyd ymarfer tebyg yn y Rhyl i ddatblygu Cynllun Cyflwyno Y Rhyl yn Symud Ymlaen. Mae'r Cynlluniau Tref wedi galluogi ar gyfer dynodi anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau ar gyfer pob anheddiad mawr. Fodd bynnag, nid ydynt wedi mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai a mwy gwledig eto. Ym mis Ionawr 2013, cytunodd y Cabinet i ehangu'r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn gosod y cynigion ar gyfer sut bydd hynny'n digwydd.

**2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?**

Ceisio safbwyntiau gan Graffu Cymunedau ar y broses ar gyfer ehangu Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal ehangach gan ymgorffori'r cymunedau llai a mwy gwledig ar draws Sir Ddinbych.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Gwahoddir y Pwyllgor Craffu Cymunedau i adolygu a rhoi sylwadau ar y broses arfaethedig i ehangu'r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal seiliedig ar Dref ehangach fel y nodir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys yn benodol:

- Y cymunedau sy'n gysylltiedig â phob Cynllun a osodwyd yn Atodiad 1
- Y trefniadau ymgynghori a osodwyd yn Atodiad 2

**4. Manylion yr adroddiad.**

<u>Cefndir</u>

4.1 Yn ystod 2011/12, cynhaliodd y Cyngor ymarfer mawr i lunio Cynlluniau Tref ar gyfer saith prif dref y Sir, ac eithrio'r Rhyl, er mwyn dynodi anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau. Cynhaliwyd ymarfer tebyg yn y Rhyl i ddatblygu Cynllun Cyflwyno Y Rhyl yn Symud Ymlaen. Cymeradwywyd y Cynlluniau Tref

ar gyfer Corwen, Dinbych, Llangollen, Prestatyn, Rhuddlan, Rhuthun a Llanelwy gan y Cabinet rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Mawrth 2012.

4.2 Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2013, cymeradwyodd y Cabinet ddyraniad cyllid cychwynnol ar gyfer y prosiectau a ddynodwyd yn flaenoriaethau Blwyddyn 1 yn y Cynlluniau Tref. Ar yr un pryd, cytunodd y Cabinet i atgyfnerthu ac ehangu'r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal ehangach.

4.3 Er 15 Ionawr 2013, mae'r Grŵp Cydlynu Cynlluniau Tref wedi ystyried y broses briodol i ehangu'r Cynlluniau Tref presennol yn Gynlluniau Ardal ehangach. Wrth wneud hynny, aeth i'r afael â 3 phrif gwestiwn:

a) Beth yw'r 'ardal' briodol ar gyfer Cynllun Ardal?

b) Sut dylid datblygu'r Cynlluniau Ardal?

c) Sut byddant yn edrych?

Ardaloedd i'w cynnwys

4.4 Wrth ystyried pa ardal y dylai'r Cynllun ei chynnwys, mae'r Grŵp yn ystyried dau brif ddewis – ardaloedd Grwpiau Aelodau Ardal, neu ardaloedd seiliedig ar y Trefi a'r cymunedau a chanddynt gysylltiad traddodiadol neu naturiol â nhw. O gofio mai bwriad Cynlluniau Tref, a Chynlluniau Ardal erbyn hyn yw cyflawni ymrwymiad y Cyngor i gynllunio seiliedig ar y gymuned a'i uchelgais i fod yn Agosach at y Gymuned, casglodd aelodau'r Grŵp mai'r ail ddewis – Trefi a'u Cymunedau Cysylltiedig – oedd yn cael eu ffafrio. Er ei fod ychydig yn fwy cymhleth i'w reoli o safbwynt y Cyngor, teimlai'r Grŵp fod y fath Gynlluniau'n fwy tebygol o gael eu deall yn hawdd gan y trigolion. Mae'r dull hwn hefyd yn unol ag arfer gorau mewn cynllunio dan arweiniad y gymuned a datblygiad trefi marchnad.

4.5 Mae Atodiad 1 yn nodi'r cymunedau i'w cynnwys gan bob Cynllun. Mae'r rhain wedi'u trafod a'u cytuno gan y Grwpiau Aelodau Ardal a chredir mai nhw sy'n cynrychioli'r cysylltiadau naturiol o ran 'cydweddiad gorau' rhwng cymunedau a threfi.

4.6 Ystyriodd y Grŵp Cydlynu Cynlluniau Tref hefyd y cwestiwn sawl Cynllun ddylai fod mewn bodolaeth. Casglodd y Grŵp y dylai fod cyfanswm o 9 Cynllun, sy'n cynnwys y 7 Cynllun Tref presennol, Rhaglen Y Rhyl yn Symud Ymlaen a Chynllun newydd i'w ddatblygu ar gyfer Bodelwyddan a'i chymunedau cysylltiedig ar ôl i benderfyniadau mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol gael eu cadarnhau.

Datblygu'r Cynlluniau

4.7 Mae Grŵp Cydlynu'r Cynllun Tref yn cydnabod bod rhaid i ymgynghori lleol da fod yn sylfaen i'r Cynlluniau Ardal newydd er mwyn iddynt fod yn gynlluniau cymunedol gwirioneddol, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

4.8 Bydd Pencampwyr y Cynlluniau Tref, a gefnogir gan Swyddogion Cefnogi Cynllun Tref, yn llunio cynlluniau ymgynghori manwl er mwyn ymgorffori'r cymunedau llai a faint a mwy gwledig i'w Cynllun Tref ac Ardal lleol. Er mwyn sicrhau dull cyson, mae Grŵp Cydlynu'r Cynllun Tref wedi cytuno fframwaith eang ar gyfer ymgynghori. Nodir hyn yn Atodiad 2. Gan gadw at Siarter y

Cynghorau Tref a Chymuned, dyluniwyd y cynigion i sicrhau bod Cynghorau Tref/Dinas a Chymuned yn arwain ymgynghori ac ymgysylltu ar lefel leol.

4.9 Bydd gan nifer fach o Gynghorwyr gymunedau yn eu wardiau sy'n perthyn i Dref y tu allan i'w Grŵp Aelodau Ardal (GAA). Oherwydd bydd gan GAA rôl bwysig wrth ddatblygu Cynlluniau Ardal newydd, mae Grŵp Cydlynu'r Cynllun Tref wedi ystyried sut orau i drafod hyn ac mae'n argymell y canlynol:

- Bydd Pencampwr y Cynllun Tref yn ymgynghori ag Aelodau Lleol gan ar sut orau i ymgynghori â'u cymunedau unigol.
- Er mwyn llywio'r ymgynghoriad lleol, bydd Aelodau lleol yn cael eu gwahodd ar ddechrau'r broses i ddynodi unrhyw faterion neu flaenoriaethau allweddol maent yn ymwybodol ohonynt yn eu cymunedau
- Bydd Aelodau Lleol yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd GAA perthnasol pan fydd y Cynllun Ardal yn cael ei ystyried i'w gymeradwyo. Os na allant fynychu, bydd yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, yn ei rôl fel Pencampwr Gwledig, yn sicrhau bod buddiannau pob cymuned wledig, gan gynnwys y rhai nad yw ardal GAA yn eu cynnwys fel rheol, yn cael eu hymgorffori'n ddigonol yn y Cynlluniau Ardal sy'n dod i'r amlwg.

4.10 Bydd Cynlluniau Ardal yn cael eu datblygu gan y Pencampwyr Cynlluniau yn seiliedig ar yr ymgyngoriadau lleol a gynhaliwyd a byddant yn cael eu hadolygu gan GAAau. Ar ôl i'r GAA gytuno'r Cynllun Ardal, bydd yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w gymeradwyo. Gellir dyrannu cyllid ar gyfer y blaenoriaethau cynnar ar y cam hwnnw.

<u>Cynlluniau Ardal</u>

4.11 Bydd gan y Cynlluniau Ardal newydd 3 adran fras – un sy'n dynodi'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer pob Tref, yr ail yn dynodi sut mae'r cymunedau llai o faint a mwy gwledig yn perthyn i'r Dref, a thrydydd yn nodi unrhyw anghenion neu flaenoriaethau penodol ar gyfer y cymunedau llai o faint a mwy gwledig. Bydd y cynigion ymgynghori a drafodwyd uchod ac a osodwyd yn Atodiad 2 yn canolbwyntio ar ail a thrydydd rhannau'r Cynlluniau.

4.12 Nid yw'n fwriad i ailymweld ag adran neu flaenoriaethau'r Cynllun Tref ar hyn o bryd, ond bydd camau cadarnhau a chryfhau'r Cynlluniau i'r dyfodol yn caniatáu i adolygu materion a blaenoriaethau wrth i'r amgylchiadau newid. Awgrymir map llwybr potensial ar gyfer camau datblygu i'r dyfodol yn Atodiad 3.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi trefi a chymunedau bywiog ac economaidd weithgar fel cydrannau hanfodol o economi leol gref. Mae cadarnhau ac ehangu'r Cynlluniau Tref yn Gynlluniau Ardal ehangach yn ymestyn y gwaith hwn i gymunedau llai o faint a mwy gwledig.

## 6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Wrth fabwysiadu'r dull Cynlluniau Tref, o 2012/13, dynododd y Cyngor gyllideb flynyddol o £175 mil i gefnogi gweithrediad y blaenoriaethau sy'n dod i'r

amlwg. Yn flaenorol, dyrannodd y Cyngor refeniw o £100 mil a chyllidebau cyfalaf o £480 mil i ddarparu cyllid i brosiectau lleol a chymunedol. Ym mis Ionawr, cytunodd y Cabinet y dylai'r rhain gyfuno'n un ffynhonnell cyllid ar gyfer blaenoriaethau'r Cynlluniau Tref ac Ardal. Ar gyfer 2012/13 a 2013/14 **gyda'i gilydd,** darparodd hyn bot cyllido o £1.275M, gan ystyried tanwariant a ddygwyd ymlaen o 2011/12.

6.2 Gwnaed dyraniad cychwynnol o oddeutu £600 mil i flaenoriaethau Blwyddyn 1 y Cynllun Tref ym mis Ionawr. Cadwyd y £600 mil oedd yn weddill i'w dyrannu i flaenoriaethau cynnar a ddaeth i'r amlwg o Gynlluniau Ardal ehangach ac unrhyw brosiectau sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad blaenoriaethau ar gyfer y Rhyl.

## 7. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd gwaith Sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Mae Grŵp Cydlynu'r Cynllun Tref wedi datblygu'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Ymgynghorwyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych hefyd ar ymgysylltu â'r sector gwirfoddol/Sector Trydyddol wrth ddatblygu'r Cynlluniau Ardal.

Bydd Craffu Cymunedau'n adolygu'r cynigion mewn cyfarfod arbennig ar 2 Ebrill 2013. Bydd sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar gael i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Ebrill 2013 pan fydd y cynigion yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

Nodir y trefniadau ymgynghori i ddatblygu'r Cynlluniau Ardal yn yr adroddiad.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae datblygu cynlluniau tref yn bwysig i ddarparu proses i alluogi buddsoddiad mewn prosiectau cymunedol a thref allweddol.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cynlluniau Ardal ehangach fel a ganlyn:

- Methu mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai o faint a mwy gwledig
- Gwariant heb ei gydlynu ar brosiectau â budd strategol neu leol bach iawn neu aneglur
- Methu ariannu blaenoriaethau dynodedig

Eir i'r afael â'r risgiau hyn trwy'r broses a amlinellir yn yr adroddiad hwn, ac yn benodol y cynigion ymgynghori a osodwyd yn Atodiad 2.

Mae'r risg o beidio â chyflawni'r camau gweithredu a nodwyd i'w cwblhau ym mlynyddoedd cynnar y Cynlluniau Tref wedi'u lleihau yn sgil creu rolau Pencampwyr Cynllun Tref ac Ardal i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynlluniau Tref ac Ardal perthnasol. Fe'u lleihawyd hefyd trwy ddyrannu cyllidebau i alluogi ar gyfer ariannu camau blaenoriaeth na fyddai modd eu cyflawni fel arall trwy'r cyllidebau gwasanaeth presennol.

## 10. Y Grym i Wneud y Penderfyniad

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r grym i'r Cyngor wneud unrhyw beth yr ystyria ei fod yn debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

Mae Erthyglau 6.3.1, 6.3.2 a 6.3.3 Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod rôl craffu mewn datblygu polisïau a materion sy'n effeithio ar yr ardal a'i thrigolion.

**Swyddog Cyswllt: Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol**
**Ffôn: 01824 706128**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Trefi a'u Cymunedau Cysylltiedig

| Tref | Cymunedau Gwledig | Grŵp Aelodau Ardal |
|---|---|---|
| Prestatyn | Allt Melyd | Prestatyn |
| Rhuddlan | Cwm | Elwy |
| | Diserth | |
| | Bodelwyddan | |
| Llanelwy | Rhuallt | Elwy |
| | Cefn | |
| | Tremeirchion | |
| | Trefnant | |
| | Y Waun | |
| Dinbych | Bodfari | Elwy |
| | Sodom | |
| | Henllan | Dinbych |
| | Nantglyn | |
| | Prion | |
| | Saron | |
| | Aberchwiler | |
| | Llangwyfan | |
| | Llandyrnog | |
| | Llanrhaeadr | |
| Rhuthun | Bontuchel | Dinbych |
| | Cyffylliog | |
| | Rhewl | |
| | Llanynys | |
| | Llangynhafal | Rhuthun |
| | Gellifor | |
| | Llanbedr DC | |
| | Llanferres | |
| | Maeshafn | |
| | Eryrys | |
| | Llanarmon-yn-Iâl | |
| | Llandegla | |
| | Llanfair DC | |
| | Graigfechan | |
| | Pentrecelyn | |
| | Pwll-glas | |
| | Clocaenog | |
| | Derwen | |
| | Brynsaithmarchog | |
| Corwen | Gwyddelwern | Rhuthun |
| | Betws Gwerful Goch | |
| | Melin-y-wig | |
| | Bryneglwys | |
| | Llandrillo | Dyffryn Dyfrdwy |
| | Cynwyd | |
| | Carrog | |
| | Glyndyfrdwy | |
| Llangollen | Llantysilio | Dyffryn Dyfrdwy |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cynigion yr Ymgynghoriad ar gyfer Datblygu Cynlluniau Ardal**

Bydd pob Pencampwr Cynllun yn teilwra'r trefniadau ymgynghori i fodloni anghenion ac amgylchiadau lleol. Fodd bynnag bydd yr ymgynghoriad i ddatblygu Cynlluniau Ardal yn digwydd yn y fframwaith canlynol:

**Cam 1:** Ymgynghorir ag Aelodau Lleol ar faterion a blaenoriaethau ar gyfer cymunedau unigol yn eu Wardiau

**Cam 2:** Cynhelir trafodaethau rhagarweiniol wedi'u targedu gyda rhanddeiliaid lleol allweddol i archwilio materion a blaenoriaethau cymunedol potensial. Bydd y rhanddeiliaid yn amrywio yn unol â'u hamgylchiadau lleol, ond dylent gynnwys y sectorau canlynol:

- Cyngor Cymuned
- Ysgol Leol
- Busnesau/Grwpiau busnes lleol allweddol
- Unrhyw gorff/gyrff cymunedol neu wirfoddol lleol arwyddocaol

Bydd y trafodaethau'n cynnwys materion a blaenoriaethau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Tref a byddant yn canolbwyntio ar a) sut mae cymunedau'n sicrhau eu bod yn elwa ar ddatblygiadau'r Dref, a b) anghenion a blaenoriaethau mewn cymunedau. Pwrpas y trafodaethau rhagarweiniol hyn yw cymryd safbwyntiau i lywio'r papurau ymgynghori yn hytrach na chytuno'n bendant ar beth ddylai fod mewn Cynllun.

**Cam 3:** mae'r materion a ddynodwyd yng Nghamau 1 a 2 uchod yn cael eu coladu'n adroddiad materion i bobl leol ymgynghori arno. Bydd ymgynghoriad dan arweiniad y Cyngor Cymuned a bydd yn agored i unrhyw grŵp trigolion neu randdeiliaid lleol.

Bydd Cynghorau Cymuned yn cael eu hannog i sicrhau bod cyfarfodydd ymgynghori'n cael cyhoeddusrwydd da yn y gymuned leol. Bydd y Cyngor yn gwahodd sylwadau trwy ei wefan hefyd, gan adrodd nôl ar unrhyw sylwadau a ddaeth i law'r Cyngor Cymuned a Phencampwr y Cynllun.

**Cam 4:** Bydd adborth yr ymgyngoriadau cymunedol unigol yn cael ei goladu a'i gyflwyno i'r GAA perthnasol er mwyn ei ystyried a'i adolygu. O hyn, bydd Pencampwr y Cynllun yn goruchwylio'r gwaith o lunio'r rhannau newydd ar gyfer y Cynllun Tref ac Ardal drafft a fydd yn cael ei gyfeirio'n ffurfiol i'r Cabinet ei gymeradwyo ar ôl iddo gael ei gytuno gan y GAA.

Bydd Grŵp Cydlynu'r Cynllun Tref/Ardal yn adolygu'r holl gynlluniau cyn iddynt gael eu cyfeirio at y Cabinet.

Bydd aelodau sy'n cynrychioli'r holl gymunedau sy'n cael eu cynnwys gan Gynllun Ardal yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod GAA y bydd y Cynllun yn cael ei ystyried ynddo boed a ydynt yn aelod o'r GAA hwnnw ai peidio. Bydd

DRAFT

yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, yn ei rôl fel Pencampwr Gwledig yn sicrhau bod pob cymuned wledig yn cael eu hymgorffori'n briodol yn y Cynlluniau Ardal.

**Cam 5:** Bydd cynlluniau a gytunwyd gan GAAau unigol ac a adolygwyd gan Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Tref/Ardal yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w cymeradwyo'n ffurfiol, gan gynnwys dyrannu cyllid ar gyfer unrhyw flaenoriaethau a ddynodwyd ym Mlwyddyn 1.

Mae Cynlluniau Ardal yn debygol o ddod ymlaen ar wahanol gyflymderau yn dibynnu ar gymhlethdod ymgyngoriadau lleol. Fodd bynnag, argymhellir dyddiad targed o fis Medi 2013 ar gyfer cytuno pob Cynllun Ardal.

**Rhanddeiliaid Allweddol ar gyfer Trafodaethau Rhagarweiniol**

<u>Cynllun Ardal Prestatyn</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Rhuddlan</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Llanelwy</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Dinbych</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Rhuthun</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Llangollen</u>

*i'w ychwanegu*

<u>Cynllun Ardal Corwen</u>

*i'w ychwanegu*

DRAFT

**Map Llwybr i Ddatblygu Cynlluniau Ardal Ymhellach**

**Sut mae symud o Gynlluniau Tref i Ardal?**
Canlyniad y trafodaethau gyda Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Tref, 26/2/13

**Ble rydym arni**

- 7 Cynllun Tref
- Blaenoriaethau tymor byr, canolig a hwy i bob Tref
- Cyllideb ddynodedig - refeniw a chyfalaf
- Rhai pryderon am gefnogaeth a derbyniad y gymuned i'r Cynlluniau
- Rhai pryderon am lefel yr uchelgais a'r cysylltiadau strategol
- Rhai pryderon am y cysylltiadau rhwng y Cynlluniau a'r cynlluniau Gwasanaeth

↓

**Ble rydym am fod**

- Cynlluniau Ardal ehangach sy'n cwmpasu ardal gyfan y Sir
- Bod y gymuned leol yn berchen arno a'i fod yn adlewyrchu ei blaenoriaethau
- Ymgysylltiad llawn y sector preifat a thrydyddol lleol (a sector cyhoeddus arall?)
- Uchelgeisiol a chanddo gysylltiadau clir â blaenoriaethau corfforaethol Sir Ddinbych
- Dogfennau arweiniol ar gyfer cynllunio gwasanaethau a phenderfyniadau ariannu
- Ei fod yn cael ei gyfeirnodi gan gyllidwyr Grant i ddynodi'r gefnogaeth leol a'r flaenoriaeth ar gyfer ceisiadau am arian grantiau allanol
- Dogfennau ymarferol sy'n newid wrth i'r angen a'r blaenoriaethau newid

↓

**Beth mae angen i ni ei wneud**

***Gwaith Cam 1***

<u>Tref i Ardal</u>

1. Cytuno beth yw 'Ardal' ar gyfer cynllunio
2. Cytuno'r ffiniau
3. Dal blaenoriaethau lleol
4. Ymgyngoriadau ac ymgysylltiad lleol
5. Ysgrifennu a chymeradwyo cynlluniau newydd

***Gwaith Cam 2***

<u>Codi'r Uchelgais</u>

6. Gwerthuso'r blaenoriaethau presennol mewn Cynlluniau Tref yn erbyn proffiliau lleol, blaenoriaethau/gweledigaeth strategol etc
7. Hwyluso trafodaethau lleol

Creu cysylltiadau

8. Gwerthuso cynlluniau Gwasanaeth etc yn erbyn cynlluniau Ardal a'u hunioni gyda nhw
9. Codi proffil Cynlluniau Ardal gyda chyrff cyllido